

FFYNNON SY'N IACHÁU
THE WELL THAT MAKES THE UNWELL WELL

Y ffynnon sy'n iacháu

The well that makes the unwell well



Er fod y ffynnon yn enwog ers y cyfnod canoloesol, fe wnaeth adroddiad yn niwedd y ddeunawfed ganrif ledaenu 'nodweddion llesol' y dŵr. Darparodd ficer lleol astudiaethau achos i'r adroddiad. Roedd wedi'i argyhoeddi gymaint am allu'r ffynnon i iacháu'r gwan, y cloff a'r deillion fel y perswadiodd y perchenog, William Price, i roi cyfleusterau i'r pererinion.

Er mwyn ceisio cael eich iacháu roedd yn rhaid ymdrochi yn y dŵr sawl gwaith bob dydd, gan orffwys yn un o'r gwelyau yn y bwthyn rhwng y sesiynau ymdrochi, ac yfed y dŵr. Os oeddech yn cynhesu yn y gwely, yna credwyd fod y driniaeth yn gweithio. Credai pobl fod y dŵr yn gwella bob math o anhylder yn cynnwys y diciâu, y sgyrfi a chryd cymalau. Arferai cleifion diolchgar daflu ceiniogau neu arian i'r ffynnon.

Ffynnon y cariadon

Yn ogystal, defnyddiwyd y ffynnon gan ferched ifanc i ganfod pa mor onest a pharchus oedd eu cariadon. Byddent yn taenu eu hancesi ar y dŵr. Petai'r hances yn symud tua'r de roedd yn arwydd da, ond roedd yn arwydd drwg petai'n symud i gyfeiriad y gogledd. Gobeithio iddynt ddefnyddio hances lân – byddai rhai pobl yn arfer yfed y dŵr! Mae'r siambr gefn, sy'n cael ei bwydo gan ddŵr y ffynnon, yn llifo i brif siambr y ffynnon. Byddai'r dŵr yn llifo heibio i geudy bach ac i lawr i'r nant.

Although renowned since medieval times, a late eighteenth century report publicised the 'medicinal qualities' of the water. A local vicar provided case studies for the report. He was so convinced by the well's ability to heal the sick, lame and blind that he persuaded the owner, William Price, to provide facilities for the pilgrims.

When 'taking the cure' you bathed several times a day, resting in one of the cottage's beds between sessions and drinking the water. If you became warm in bed, the treatment was considered to be working. The waters were believed to cure all kinds of ailments, including warts, tuberculosis, scurvy and rheumatism! Pennies or silver were thrown into the well by grateful patients.

Well loved

The well was also used for by young women to test their loved one's honesty and honour. They would spread their handkerchiefs on the water. It was a good sign if the handkerchief drifted south, but bad news if it travelled north. Let's hope they used a clean hankie – some people would be drinking the water! The back chamber, fed by the spring, flowed into the main well chamber. The water then ran past a small latrine and down to the stream.